










# Gweledigaeth Gwella Gorsafoedd

Medi 2019

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Transport for Wales is owned by the **Welsh Government**



# Rhagair

## Ken Skates,
## Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Rwy'n falch o gyflwyno Gweledigaeth Gwella Gorsafoedd Trafnidiaeth Cymru, lle bydd £194 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn gorsafoedd rheilffordd ledled Cymru, gan gynnig mynediad at ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn parhau i gyflawni ei gynlluniau uchelgeisiol i drawsnewid y sector trafnidiaeth ac i greu rhwydwaith hygyrch ac integredig y gall Cymru fod yn falch ohono. Dros y 5 mlynedd nesaf, bydd y buddsoddiad hwn yn ein gorsafoedd rheilffordd yn chwarae rhan allweddol wrth roi'r cynlluniau hynny ar waith.

Mae'r Weledigaeth hon yn nodi manylion llawn y gwelliannau a fydd yn cael eu cwblhau mewn gwahanol orsafoedd ar draws y wlad. Mae'n dangos y bydd pob gorsaf sy'n rhan o'r rhaglen yn cael WiFi am ddim, cysgodfeydd newydd, teledu cylch cyfyng, mannau storio beics gwell, a gwybodaeth well i deithwyr.

Lle bo'n bosib, bydd Trafnidiaeth Cymru yn creu cyfleusterau manwerthu a mannau ar gyfer defnydd cymunedol fel rhan o'r gwelliannau hyn, yn ogystal â chyflwyno rhaglen achredu gorsafoedd diogel i wneud gorsafoedd yn fwy diogel ac yn fwy croesawgar i gwsmeriaid.

Yn ychwanegol, bydd o leiaf 1,500 o lefydd parcio ychwanegol yn cael eu creu ledled y rhwydwaith, a fydd yn ei gwneud hi'n haws i bobl adael eu ceir a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, gan gefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru i greu Cymru sy'n fwy cynaliadwy. Bydd y rhaglen fuddsoddi gyffrous a thrawsnewidiol hon hefyd yn rhoi cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig, ac mae Trafnidiaeth Cymru'n cydweithio â Busnes Cymru i sicrhau bod y buddsoddiad yn mynd yn ôl i fusnesau a chymunedau lleol.

Rwy'n gobeithio y bydd y Weledigaeth hon yn cael ei gweld fel carreg filltir lwyddiannus arall i Trafnidiaeth Cymru wrth iddo barhau i gyflawni ei gynlluniau i drawsnewid y rhwydwaith trafnidiaeth.

## Platfform ar gyfer llwyddiant

Mae TrC wedi comisiynu adroddiadau manwl ar bob gorsaf rydyn ni'n ei rheoli er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ba welliannau sy'n bosibl. Cafodd hyn ei wneud rhwng mis Hydref 2018 a mis Ebrill 2019, ac mae wedi rhoi dealltwriaeth fanwl i dîm y prosiect, sy'n dîm profiadol iawn, o'r hyn sydd ei angen er mwyn gwneud ein gorsafoedd yn rhai gwell. Nawr, rydyn ni wedi sefydlu gweithgor gwella gorsafoedd er mwyn cyflawni'r prosiectau hyn.

Rydyn ni hefyd yn awyddus i weithio gyda theithwyr, rhanddeiliaid a chymunedau er mwyn deall eu hanghenion a'u dymuniadau, fel y gallwn ddefnyddio hynny i'n helpu ni i siapio ein cynlluniau. Mae gennym ni dîm cymuned a rhanddeiliaid er mwyn ymgysylltu â'r grwpiau hyn ac i wrando ar eu hadborth.

## Cadw buddsoddiad yn y gymuned

Un o nodau allweddol TrC yw ailfuddsoddi yn y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu, a rhoi cyfleoedd i fusnesau lleol. Rydyn ni'n sefydliad sydd ag ymwybyddiaeth gymdeithasol, ac felly rydyn ni'n deall y gwerth mewn gweithio â busnesau bach a chanolig (BBaChau).

Mae gan gwmnïau bach lleol ddealltwriaeth drylwyr o'u hardaloedd lleol ac o faterion lleol, ac maen nhw'n gallu darparu gwasanaethau gwych a phwrpasol sydd o safon uchel. Yn yr un modd, rydyn ni'n helpu i sicrhau swyddi yn lleol ac yn cefnogi economïau lleol drwy fuddsoddi yn y cwmnïau hyn.

Fe wnaethon ni gynnal digwyddiadau "Cwrdd â'r Prynwr" gyda Busnes Cymru yn Abertawe ac yn Llandudno eleni er mwyn datblygu'r partneriaethau hyn. Mynychodd mwy na 200 o gwmnïau gwahanol, lle buon nhw'n cwrdd â'n timau prosiect a chaffael er mwyn deall yr hyn sydd ei angen arnyn nhw i wneud cynnig am waith.

Mae Busnes Cymru yn cynnig gwasanaeth cymorth i'r cwmnïau sydd â diddordeb mewn gwneud cynnig am gontract gyda ni.



*Digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr yn Abertawe.*



James Price
Prif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru

*"Mae Trafnidiaeth Cymru yn rhoi rhaglen fuddsoddi ar waith. Bydd y buddsoddiad hwn o £5 biliwn yn trawsnewid y sector trafnidiaeth ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau. Rydyn ni'n rhoi ein cwsmeriaid wrth galon ein proses o wneud penderfyniadau, ac mae'r ddogfen hon yn tynnu sylw at sut byddwn ni'n gwella ein gorsafoedd, gan ddod â buddion i'n cwsmeriaid ac i'r cymunedau lleol rydyn ni'n eu gwasanaethu."*

# Sut beth fydd hyn?

Bydd ein rhaglen wella yn amrywio o un orsaf i'r llall yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys lleoliad yr orsaf, a yw'r adeilad yn adeilad rhestredig ai peidio, a ffactorau masnachol fel lesoedd presennol a faint o deithwyr sy'n defnyddio'r orsaf fel arfer.

Byddwn ni'n gwneud gwelliannau rheolaidd i bob gorsaf, gan gynnwys cynnig wifi a gosod systemau teledu cylch cyfyng.

Byddwn ni'n gwella ein cynnig manwerthu, gan greu unedau manwerthu yn rhai o'n gorsafoedd mawr a phrysur, ac yn chwilio am wasanaethau symudol a "gwerthu ar y stryd" lleol ar gyfer rhai o'n gorsafoedd bach.

Byddwn ni'n ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol, ac yn canolbwyntio ar sicrhau bod unrhyw ofod sydd ddim yn cael ei ddefnyddio mewn gorsafoedd ar gael i'w ddefnyddio at ddiben cymunedol.

Er bod bob gorsaf yn wahanol i'w gilydd, rydyn ni wedi eu rhannu i gategorïau.



Bethan Jelfs
Cyfarwyddwr Cyflawni Profiad Cwsmeriaid, Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru

*"Ymunais â'r diwydiant Rheilffyrdd 30 o flynyddoedd yn ôl. Roeddwn i'n gweithio gyda thîm bach yn fy ngorsaf leol bryd hynny, ac felly rwy'n gwybod pa mor hanfodol yw gorsafoedd i gymunedau, a'u bod nhw'n aml wrth galon dinas, tref neu bentref.*

*"Maen nhw'n ein hadlewyrchu ni fel cwmni, yn ogystal â'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu, ac mae argraffiadau pobl ohonyn nhw wir yn aros yn eu cof.*

*"Felly mae'n wych gweld cymaint o fuddsoddiad yn ein gorsafoedd er mwyn eu gwneud nhw'n ddiogel ac yn groesawgar i'n cwsmeriaid, yn ogystal â bod yn llefydd lle gall ein cydweithwyr gynnig y cymorth gorau posibl i helpu ein cwsmeriaid a'n cymunedau."*



*Gorsaf Aberystwyth.*

## Prif orsafoedd

Mae'r rhain yn orsafoedd allweddol mewn dinasoedd neu drefi sy'n rhoi mynediad at sawl llwybr i gymudwyr ac i deithwyr sy'n teithio'n bell.

- Caerdydd Canolog*
- Caerdydd Heol y Frenhines
- Caer
- Casnewydd*
- Amwythig
- Abertawe*

**Byddwn ni'n:**

- Gwella safon cyfleusterau adwerthu tocynnau
- Gwella niferoedd a safon cyfleusterau manwerthu masnachol
- Gwella maint mannau storio beics yn sylweddol, a chreu mannau parcio ychwanegol lle bo hynny'n ymarferol
- Darparu sgriniau gwybodaeth digidol newydd a gwell i deithwyr
- Darparu arwyddion a dulliau 'canfod y ffordd' newydd a gwell
- Darparu gwybodaeth ddigidol aml-fodd am drafnidiaeth gan gynnwys cyfleusterau gwybodaeth amser real am fysiau
- Adnewyddu ystafelloedd aros yn gyfan gwbl
- Darparu canolfannau ailgylchu ar gyfer casglu sbwriel yn gynaliadwy.

Rydyn ni'n cydweithio â chymunedau lleol, cyllidwyr trydydd sector ac awdurdodau lleol i'w gwneud nhw'n fwy integredig â mathau eraill o drafnidiaeth, gan gynnwys teithio llesol. Rydyn ni hefyd yn gweithio â sefydliadau cenedlaethol fel Croeso Cymru er mwyn gwella'r ymdeimlad o hunaniaeth yn ein gorsafoedd.

Howard Jacobson
Cynghorydd Tendro, Busnes Cymru

*"Mae Busnes Cymru wedi creu cynllun i gynghori a helpu busnesau ym mhob cwr o Gymru i fod yn 'Addas i Dendro' a gallu manteisio ar y cyfleoedd cyffrous y mae Trafnidiaeth Cymru yn eu darparu.*

*"Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod busnesau bach a chanolig yng Nghymru'n gallu cymryd rhan yn y gwaith o gyflenwi nwyddau a gwasanaethau a bydd Busnes Cymru'n cynnal gweithdai sydd wedi'u cyllido'n llawn yn ogystal â chefnogaeth gynghori i gynorthwyo busnesau bach a chanolig ar bob lefel gyda'r broses dendro."*




*Gorsaf Abertawe.*

### Amserlen

| 2019 | 2020 | 2021 |
| --- | --- | --- |
| Bydd gwaith yn dechrau yn Abertawe yn 2019. | Bydd gwaith yn dechrau ar bob gorsaf gyfnewid yn 2020. | Bydd gwaith yn dechrau yng Nghaerdydd Heol y Frenhines yn 2021 yn unol â chreu Metro De Cymru. |

*Yn ogystal â dosbarthiad o dan Weledigaeth Gwella Gorsafoedd TrC, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi bod y gorsafoedd hyn yn Brif Gyfnewidfeydd.



*Gorsaf Machynlleth.*

## Gorsafoedd Cyfnewid

Gorsafoedd mewn trefi llai yw'r rhain sy'n darparu cyswllt rhwng dau lwybr neu fwy:

- Cyffordd Llandudno*
- Craven Arms
- Caerfyrddin
- Pen-y-bont ar Ogwr
- Radur
- Abercynon
- Henffordd
- Llanelli
- Machynlleth
- Pontypridd
- Cyffordd Twnnel Hafren
- Shotton
- Wrecsam Cyffredinol*

**Byddwn ni'n:**

- Gwella niferoedd a safon cyfleusterau manwerthu masnachol
- Darparu mannau mwy diogel i feiciau
- Darparu sgriniau gwybodaeth digidol newydd a gwell i deithwyr
- Darparu arwyddion a dulliau canfod y ffordd newydd a gwell
- Darparu gwybodaeth ddigidol aml-fodd am drafnidiaeth gan gynnwys cyfleusterau gwybodaeth amser real am fysiau
- Darparu toiledau hygyrch i bob teithiwr ym mhob gorsaf
- Darparu cysgodfeydd gwell neu newydd, yn ogystal â rhagor o lefydd i eistedd ac yn
- Darparu mannau cymorth newydd lle bo angen a darparu mwy o systemau teledu cylch cyfyng

**Amserlen**

## 2021

| | | |
|---|---|---|
| Bydd gwaith yn dechrau ym mhob gorsaf gyfnewid yn 2021. | Rydyn ni eisoes wedi dechrau gwaith ym Mhen-y-bont ar Ogwr. | Mae'n bosib y bydd gwaith yng Nghyffordd Twnnel Hafren yn dechrau'n hwyrach, am ein bod ni'n cael trafodaethau parhaus â'n partneriaid yng Nghyngor Sir Fynwy ynglŷn â sicrhau cyllid ychwanegol. |

*Yn ogystal â dosbarthiad o dan Weledigaeth Gwella Gorsafoedd TrC, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi bod y gorsafoedd hyn yn Brif Gyfnewidfeydd.

### Gorsafoedd ar draws y rhwydwaith

Rydyn ni'n awyddus i sicrhau bod pob un o'n gorsafoedd yn cael eu gwella. Bydd gorsafoedd nad ydyn nhw'n cael eu cyfrif yn "Brif" orsafoedd neu'n orsafoedd "Cyfnewid" hefyd yn derbyn buddsoddiad sylweddol er mwyn eu gwneud nhw'n llefydd gwell, mwy diogel a mwy disglair.

**Ym mhob gorsaf, byddwn ni'n:**

- Darparu systemau teledu cylch cyfyng ym mhob gorsaf ar draws y rhwydwaith
- Darparu cyfleusterau storio beics newydd a mwy diogel
- Darparu cysgodfeydd aros newydd a llefydd eistedd gwell na'r rhai sydd eisoes yno
- Darparu biniau sbwriel newydd ac yn
- Darparu mapiau o'r ardal leol

**Amserlen**

## 2020

Bydd rhaglen waith gam wrth gam yn dechrau yn 2020.



Colin Lea
Cyfarwyddwr Masnachol a Phrofiad y Cwsmer, Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru

*"Rwy'n falch o gyflwyno ein Gweledigaeth Gwella Gorsafoedd, a fydd yn fuddsoddiad o £194 miliwn. Rydyn ni'n gwybod bod argraffiadau cyntaf wir yn cyfri, ac mewn gorsaf mae argraffiadau cyntaf yn digwydd ar y rheilffyrdd. Mae Trafnidiaeth Cymru'n rheoli 247 o orsafoedd mewn cymunedau ar draws Cymru a Lloegr.*

*"Mae'r rhain yn amrywio o brif orsafoedd canol dinas fel Caerdydd Canolog, Abertawe a Chaer, sy'n cefnogi miliynau o deithwyr bob blwyddyn, i orsafoedd lle mae'n rhaid gwneud cais i stopio yno, fel Dinas-y-bwlch a Dolgarrog, sy'n cael eu defnyddio gan lai na 1,000 o bobl bob blwyddyn. Mae pob un ohonyn nhw'n unigryw yn ei ffordd ei hun, ac rydyn ni'n falch iawn o bob un ohonyn nhw. Maen nhw'n gweithredu fel pyrth i'n cymunedau, ac rydyn ni'n angerddol ynglŷn â'u gwneud nhw'r gorau y gallan nhw fod."*

# Adnewyddu Gorsafoedd

Rydyn ni eisoes wedi dechrau ar ein rhaglen gychwynnol o waith glanhau ac adnewyddu ym mhob gorsaf. Mae hyn yn cynnwys cyfuniad o ailfrandio ac adnewyddu'r gorsafoedd, cael gwared ar lystyfiant, ac ailbeintio yn y meysydd parcio. Rydyn ni'n ailfrandio ein cysgodfeydd mewn sawl gorsaf cyn i ni osod cysgodfeydd newydd sbon yn ystod y blynyddoedd nesaf.

# Glanhau'r gorsafoedd yn drylwyr

Un o'n buddsoddiadau cyntaf yn ein gorsafoedd oedd eu glanhau nhw'n drylwyr.

Chwe wythnos ar ôl dechrau ar y gwasanaeth newydd, dechreuwyd ar y gwaith yng ngorsaf Rhiwabon, ac mae gwaith glanhau trylwyr wedi parhau i'r gogledd ac i'r de ar ein rhwydwaith. Mae hyn wedi digwydd mewn 50 o orsafoedd hyd yma, ac mae 100 o rai eraill ar y gweill ar gyfer y misoedd nesaf. Mae glanhau gorsafoedd yn drylwyr wedi ein galluogi ni i weithio gyda chyflenwyr lleol i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i edrychiad a theimlad y gorsafoedd.





## Hygyrchedd

Gan gydweithio â'n partneriaid, Network Rail, rydyn ni wedi ymrwymo i gyflawni 11 o gynlluniau Mynediad i Bawb erbyn 2024. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cyllido gan yr Adran Drafnidiaeth, a bydd TrC yn cynnig arian cyfatebol ar eu cyfer. Byddan nhw'n cynnwys gosod pont droed newydd gyda lifftiau neu rampiau, er mwyn gwneud y gorsafoedd yn hygyrch i'r rhai nad oedd yn gallu eu defnyddio.

Rydyn ni nawr yn gweithio ar gynlluniau gwelliannau hygyrchedd mewn gwahanol leoliadau, a byddwn yn cyhoeddi cynnig ar gyfer cymeradwyo cyllid ym mis Hydref.

Rydyn ni'n gwario £250k y flwyddyn, bob blwyddyn, ar raglen gwella hygyrchedd ar raddfa fach - fel gosod palmant botymog a dolenni sain - gan ofyn am fewnbwn ac arweiniad gan ein Panel Hygyrchedd a Chynhwysiant.

Rydyn ni eisoes yn gosod pont droed newydd a lifftiau yn Nhregatwg er mwyn darparu hygyrchedd llawn i'r orsaf, ac mae'r disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

## WiFi yn y Gorsafoedd

Mae creu cysylltiad gwell yn hanfodol er mwyn gwneud Cymru'n wlad fwy ffyniannus. Erbyn hyn, mae mwy a mwy o bobl yn gweithio tra eu bod nhw'n teithio, ac mae mwy o bobl yn teithio ymhellach ar gyfer cyfleoedd economaidd, ac felly mae disgwyl ein bod ni'n cynnig cysylltiad â'r we.

Yn ddiweddar, rydyn ni wedi gosod WiFi mewn 50 o orsafoedd, ac o fewn pum mlynedd, rydyn ni'n bwriadu cynnig WiFi am ddim ym mhob gorsaf rydyn ni'n ei rheoli.

Bydd hyn, ar y cyd â'r WiFi am ddim rydyn ni'n ei gynnig ar y trenau, yn golygu y bydd pobl yn gallu cysylltu â'r we ar ddechrau eu taith, ac aros ar-lein hyd nes eu bod nhw wedi cyrraedd pen eu taith heb orfod ailgysylltu.

# Gorsafoedd diogel

Mae diogelwch ein teithwyr yn ein gorsafoedd yn faes arall rydyn ni'n angerddol amdano. Dylai cwsmeriaid deimlo'n hyderus ac yn ddiogel wrth ddisgwyl am drên, ni waeth pa amser o'r dydd yw hi na ble maen nhw.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn ymrwymo i sicrhau bod pob un o'n prif orsafoedd a'n gorsafoedd cyfnewid yn ennill Achrediad Gorsaf Ddiogel, yn ogystal ag ambell un o'n gorsafoedd rhwydwaith.

Mae hwn yn achrediad sy'n cael ei osod gan yr Adran Drafnidiaeth yn y DU, ar y cyd â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, ac maen nhw'n rhoi'r cyfle i gwmnïau trên ddangos sut maen nhw'n gweithio gyda phartneriaid i leihau trosedd ac i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed. Mae'r achrediad gorsaf ddiogel yn rhoi tawelwch meddwl i'n cwsmeriaid ac i'n staff, ac yn gwella hyder pobl wrth iddyn nhw ddefnyddio'r rhwydwaith.

Er bod gan nifer o'n gorsafoedd yr achrediad hwn yn barod, rydyn ni wedi ychwanegu deuddeg gorsaf arall at y rhestr yn barod. Mae ein Gweledigaeth Gwella Gorsafoedd yn ein galluogi i wneud buddsoddiadau wedi'u targedu i sicrhau bod ein gorsafoedd wirioneddol yn llefydd diogel. Gall hyn gynnwys gosod goleuadau gwell, tacluso'r tirlun a chynllun y platfformau, a mynd i'r afael â mannau du. Byddwn yn sicrhau bod systemau teledu cylch cyfyng ar waith ym mhob gorsaf.

Lloyd Jones
Cymudwr ar y Rheilffyrdd

*"Rwy'n falch o glywed am y buddsoddiad a fydd yn cael ei wario ar orsafoedd rheilffyrdd ledled Cymru. Rwy'n gymudwr rheolaidd ac felly rwy'n ymwybodol o'r angen sydd i gael cyfleusterau i gwsmeriaid yn y gorsafoedd, a'r angen iddyn nhw fod yn llefydd croesawgar a diogel."*




*Mae gorsaf Llandudno eisoes wedi ennill yr Achrediad Gorsaf Ddiogel.*



Bill Kelly
Cyfarwyddwr Llwybrau, Cymru a'r Gororau
Network Rail

*"I deithwyr, mae gorsaf rheilffyrdd yn cynrychioli dechrau taith, ac yn aml iawn, mae'n gosod y tôn ar gyfer sut brofiad fydd y daith honno. Mae hefyd yn cynrychioli diwedd taith, pan fyddan nhw wedi cyrraedd eu gorsaf derfynol. Mae profiad mewn gorsaf yn elfen annatod i bob teithiwr, ac mae sicrhau bod pob un yn derbyn gofal, eu bod nhw'n groesawgar ac yn addas ar gyfer y byd modern yn hanfodol.*

*"Mae mwy na 30 miliwn o deithiau teithwyr yn digwydd bob blwyddyn ar hyd llwybr Cymru a'r Gororau, sydd wedi codi 44% mewn deng mlynedd. Felly, mae'r buddsoddiad gwella hwn yn amserol iawn ar gyfer y teithwyr sy'n defnyddio ein gorsafoedd bob dydd. Mae Network Rail yn parhau i ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ystyrlon â Trafnidiaeth Cymru i sicrhau bod teithwyr yn cael y gwasanaeth gorau posibl."*




# Parcio ceir

Gan y bydd mwy o bobl nag erioed yn defnyddio'r rheilffyrdd dros y blynyddoedd nesaf, mae'n hanfodol eu bod nhw'n gallu cael mynediad at orsaf i wneud hynny. Gan gofio hyn, rydyn ni wedi ymrwymo i greu o leiaf 1,500 o lefydd parcio newydd ar gyfer gorsafoedd dros y bymtheg mlynedd nesaf.

Gall y rhain gynnwys defnyddio tir gwastraff, adeiladu meysydd parcio sawl lefel, neu weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cyfleusterau parcio a theithio.

**Amserlen**

## 2020

Byddwn ni'n cyflawni rhaglen fuddsoddi mewn meysydd parcio a fydd yn dechrau yn 2020.

# Datblygu cynaliadwy

Wrth i ni gyflawni rhaglen fawr o waith gwella, rydyn ni'n ystyried yr amgylchedd a chymunedau lleol fel rhan o'n Rhaglen Datblygu Cynaliadwy.

Rydyn ni'n buddsoddi mwy na £8 miliwn mewn ynni adnewyddadwy a chynlluniau defnyddio llai o ddŵr mewn gorsafoedd.

Mae pob un o'n hymrwymiadau'n unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan geisio gwella ffyniant mewn cymunedau lleol drwy wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus gwell yn ogystal â chyfleoedd gwaith yn y rhaglen fuddsoddi.

Byddwn yn cefnogi'r iaith Gymraeg ym mhob un o'n gorsafoedd yng Nghymru, gan ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd ein rhaglen o Ganolfannau Cymunedol yn darparu mannau gweithio a chymdeithasu ar gyfer sefydliadau cymunedol gael eu defnyddio a'u rheoli. Rydyn ni eisoes yn gweithio ar yr wyth lleoliad datblygu cyntaf, a fydd yn cael eu cwblhau dros y 12 mis nesaf.

Gwelliannau i'r orsaf wedi'u cynnwys o fewn y Weledigaeth wedi'u wedi'i ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**

**European Regional Development Fund**